

mewn gwrthryfel, gan eu hannog i fynd ar streic. Dim ond uchelwyr oedd i fod ar fainc llys barn yn ôl sgweiar Y Rhiwlas. Ond fe'i trechwyd gan hynawsedd y Methodist o Llandderfel.

Er clod i Richard Watkin, rhaid nodi ei fod yn un o sefydlwyr Cymdeithas Amaethyddol Meirionnydd yn 1810. Yn wahanol i'w wŷr, Richard John Lloyd Price a'i dilynodd fel sgweiar y Stâd, fe siaradai Richard Watkin Gymraeg. O gofio fod bron bob un o'r tenantiaidd yn uniaith Gymraeg, roedd hynny'n fantais iddo.

Un haf anarferol o sych, y nentydd wedi sychu, yr haul yn deifio'r cnwd, teithiai Richard Watkin Price ar gefn ei geffyl i gyfeiriad Llandderfel. Deuai llawer o bobl i'w gyfarfod yn teithio i gyfeiriad y Bala. Galwodd yr yswain ar wraig o Fethodist yr oedd yn ei hadnabod. 'Mari, ble mae pawb yn mynd? I Gyfarfod Gweddi i weddio am law' meddai hithau. Wyt ti'n meddwl y cei di dy ateb' gofynnodd y sgweiar? 'Wel caf, debyg iawn. Drychwch, Mr. Preis, dwi'n cario ymbarel! A brysiwch chithe adre, Mr. Preis, neu mi fyddwch wedi gwlychu at eich croen.' Ond ymlaen ar ei daith yr aeth y sgweiar ar waethaf rhagolygon y tywydd. Wrth i'r



Llun olew o R. J. Lloyd Price, Y Rhiwlas.

i'r Cyfarfod Misol am ganiatad i fynd i gael gair â Mr. Price. 'Enoch' meddai'r sgweier, 'dwi wedi dweud na. A dyna dwi'n ddweud eto.' Cododd Enoch i fynd, 'Os felly, Mr. Preis, mi â i'r Bala a chynnal cyfarfod gweddi yno. Mi weddiwn ni eich bod chi'n cael eich symud oddi ar wyneb y ddaear. 'Y, Enoch,' meddai'r yswain, 'tyrd yn ôl, mi ro'i dir i chi.' Ac felly y codwyd capel yng Nglan yr afon, Cwmtirmynach. Yn ddiweddar trosglwyddodd Robin Price, y sgweier presennol, y tir o dan yr addoldy i'r Presbyteriaid.

Richard John Lloyd Price 1843-1923

Dyma'r enwocaf o ysweiniaid Y Rhiwlas. Mab ydoedd i Charlotte Lloyd, Rhapat, Carrog, Corwen, ac i Richard John Price a fu farw cyn genedigaeth y mab.

Ar farwolaeth Richard Watkin Price yn 1860, etifeddodd yr wŷr, Richard John Lloyd Price, y Stâd yn 17 mlwydd oed. Dyma hen daid y Robin Price presennol. Addysgwyd ef yn Eton ac yng Ngholeg Rhydychen.

Dyma'r sgweiar a roddodd fod i dreialon cŵn defaid ym 1873 ac mae cofeb ar Garth Goch, Rhosygwaliau yn dynodi hynny.

Sefydlodd R. J. Lloyd Price fynwent i gŵn yn y Rhiwlas gan gyfansoddi rhigwm yn feddargraff ar bron bob un. Priododd ferch ryfeddol o hardd - Evelyn Gregg Hopwood o deulu Plas Hopwood, Sir Gaerhirfryn.

Ar bnawn Sul yn 1877 âi R. J. Lloyd Price am dro hefo'i gyfaill, Robert Willis, yn Hyde Park, Llundain. Trodd y sgwrs at wisgi. Rhyfeddodd y ddau at y ffaith nad oedd wisgi'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru er mai 'w' sydd am wisgi ac 'w' am Wales. Dyma roi prawf ar ddŵr afon Mynach ger Tai'r felin, Frongoch, ac ar ddŵr o'r afon Tryweryn. Ar sail y profion, sefydlwyd Cwmni Wisgi Cymreig yn 1889, gyda £100,000 mewn cyfranddaliadau - rhai o £5 yr un, eraill o £1. Codwyd distyllfa ger Gorsaf Frongoch lle mae Ysgol Bro Tryweryn heddiw.

Y flwyddyn honno, 1889, daeth y Frenhines Victoria i aros i Pale yn Llandderfel a chyflwynodd R. J. Lloyd Price gasgen dderw â chylchoedd arian arni, casgen yn llawn wisgi. Ar sail y rhodd, newidiodd R. J. Lloyd Price enw'r cwmni i *Royal Welsh Whisky*, er na chofrestrwyd hyn.

Er hynny, cofrestrwyd gwahanol fathau o wisgi bron ar unwaith - 'Tywysog Du'; Gwŷr Harlech; Morwyn Llangollen; Dewi Sant; Y Genhinen; Welsh Rarebit. O bosibl fod y cwmni'n rhedeg cyn dysgu cerdded. Bu hysbysebu lliwgar ar wisgi Frongoch a daeth elfen lenyddol R. J. Lloyd Price i'r amlwg, megis,

'O'i yfed, bydd tân beirdd Cymru'n llosgi'n eich enaid'.

Ond ymhen un mlynedd ar ddeg, sef 1900, roedd y fenter wisgi'n fethiant - y mudiad Dirwest a gâ'r bai. Ond roedd yna wŷr busnes profiadol ac amlwg yn marchnata wisgi'r Rhiwlas yn Llundain. Yn Harper's Manual am 1915, ceir datganiad fod wisgi Frongoch ddim yn aeddfedu'n dda, ac felly, roedd y prynwyr yn brin. Gwerthwyd casgenni ohono ar golled, rhai am draean o'r gost i'w gynhyrchu. Ond roedd llun yr hyfryd Mrs. Evelyn Price ar label pob potel a chasgen - yn ei gwisg Gymreig. Mae son am un baledwr, Bob Tai'r Felin, yn cludo haidd i'r ddistyllfa liw nos. Gadawai'r wisgi Frongoch yn ystod y nos, gan fod crefydd a dirwest mor gryf yn yr ardal. Ac eto dyma'r bardd gwlad, Gwaenfab, yn mentro canu:

*Hen feddwon Sir Feirionnydd
Ymgwsglwch at eich gilydd
I Frongoch.
Pwy fyddai yn sychedig
Pan ellir am ychydig
Gael wisgi bendigedig
Yn Frongoch?
Mae meddwon yn barchedig
Yn Frongoch.*




Llun olew o Evelyn gwraig J. R. Lloyd Price

gweddiwyr gerdded allan o'r cyfarfod, daeth yn storm o fellt a tharanau a'r glaw'n pistyllio. Gwelodd rhai Richard Watkin Price yn llechu wrth Ty'n Giat yn Llanfor a'i geffyl yn 'molchi yn y glaw.

Codi Capel Glan yr afon, Cwmtirmynach

Ar y pryd, byddai Methodistiaid Cwmtirmynach yn addoli mewn tai, ond roedd yna ddyhead mawr am gael addoldy. Ond tenantiaid y plas oeddent i gyd, a byddai'n rhaid cael tir gan y sgweiar. Aeth cynrychiolaeth o'r Cyfarfod Misol i ofyn i Richard Watkin Price am ganiatad i godi capel ar dir y Rhiwlas. 'Capel Methodist? Pam na ewch chi gyda'r Eglwys? Na, capel Methodist, wir', oedd ei ateb. Clywodd hen bregethwr - Enoc Evans am hyn, gofynnodd



Potel brin o Wisgi y Cwmni Wisgi Cymreig sydd dal ym meddiant y teulu.